**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 26 Ionawr 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | S J Gallagher | P R Hood-Williams |
| Y V Jardine | M Jones | E T Kirchner |
| H Lawson | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gavin Evans | Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Nia Pugh | Principal External Funding Officer |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): Dim

---

### 38 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd Ceri Evans gysylltiad personol â Chofnod 40, "Y Diweddaraf am y Rhaglenni Cyflogadwyedd".

### 39 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

### 40 Darpariaeth Rhaglenni Cyflogadewyedd.

Cyflwynodd Nia Pugh, Prif Swyddog Cyllid Allanol, adroddiad ar ran Elliott Williams, Rheolwr Cyllid Allanol, i roi'r diweddaraf am y Rhaglenni Cyflogadwyedd i'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl.

Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o’r rhaglenni cyflogadwyedd, sgiliau a hyfforddiant allweddol a oedd yn cael eu darparu gan Gyngor Abertawe, ac yn rhoi

crynodeb o'r cyflawniadau hyd yma, gan amlygu'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer y dyfodol y dylid eu hystyried wrth ddatblygu prosiectau olynol a sicrhau cyllid ar eu cyfer, a chyllid yn dilyn gadael yr UE.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau amrywiol, ac atebodd y Prif Swyddog Cyllid Allanol yn briodol iddynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad a'r diweddariad, a gofynnwyd iddynt roi diweddariad pellach yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 23 Mawrth 2022.

**Penderfynwyd** y bydd y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl yn derbyn diweddariad pellach yn eu cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 23 Mawrth 2022.

## 41 Diweddariad ar y Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Gohiriwyd yr eitem tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 23 Chwefror 2022.

## 42 Strategaeth Gofalwyr Ifanc. (Diweddariad Llafar)

Rhoddodd Gavin Evans, Prif Swyddog Cymorth Cynnar, Partneriaeth a Phobl Ifanc ddiweddariad llafar ar y Strategaeth Gofalwyr Ifanc.

Esboniodd ei bod wedi bod yn gyfnod prysur iawn ar gyfer y gwasanaeth. Atgoffodd y Pwyllgor fod y YMCA wedi bod yn llwyddiannus wrth gomisiynu ein gwasanaeth Gofalwyr Ifanc.

Yn ystod cyfnod y gaeaf roeddent wedi gallu defnyddio ychydig o'r arian Gaeaf Llawn Lles ynghyd â thri llinyn o gyllid Gofal Integredig (CGI) ar gyfer y flwyddyn bresennol. Roedd hyn wedi arwain at benodi tri aelod o staff ychwanegol a'r gallu i gynnal nifer o wahanol prosiectau i gefnogi'r gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.

Roeddent wedi gallu ariannu 2 fws mini i helpu gyda'r cludiant a ddefnyddir ar gyfer y sesiynau clwb ieuenctid wythnosol ar ddydd Mercher.

Defnyddiwyd yr arian hefyd ar gyfer sesiynau lles wythnosol bob dydd Sadwrn. Roedd y sesiynau hyn yn cael eu harwain gan y gofalwyr ifanc.

Cynhaliwyd nifer o gyrsiau preswyl ar gyfer y gofalwyr ifanc, gyda 4 o gyrsiau ychwanegol wedi'u trefnu hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022.

Roeddent wedi bod yn ôl i ysgolion yn cynnal sesiynau wyneb yn wyneb amrywiol gyda'r gofalwyr ifanc, ac mae rhagor o ysgolion bellach yn cymryd rhan yn y sesiynau amser cinio hyn.

Parhaodd y Fforwm Gofalwyr Ifanc i gwrdd yn fisol ac i helpu gyda'r gwaith ynghylch y Strategaeth Gofalwyr Ifanc.

Hysbysodd y Prif Swyddog y Pwyllgor y cynhelir Diwrnod Gweithredu ar gyfer Gofalwyr Ifanc ar 16 Mawrth 2022, gyda'r thema'n canolbwyntio ar 'Fynd i'r Afael â Theimlo'n Ynysig'. Roedd y Fforwm Gofalwyr Ifanc wedi trefnu digwyddiad a fyddai'n

cael ei gynnal yn y YMCA, ac wedi gwahodd y Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl. Byddai'r Fforwm Gofalwyr Ifanc yn cwrdd ar ddiwedd y mis i gynllunio ar gyfer y digwyddiad a byddai manylion pellach yn cael eu hanfon ymlaen i'r Pwyllgor.

Roedd y broses o roi cardiau adnabod ar waith yn datblygu'n dda.

Sefydlwyd cynllun Grant Gofalwyr Ifanc lle'r oedd modd i ofalwyr ifanc wneud cais am grant o hyd at £200. Roedd y Fforwm Gofalwyr Ifanc wedi bod yn rhan o oruchwylio penderfyniadau'r cynllun hwnnw, a galluogi ar gyfer dyrannu grantiau i'r gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.

Roedd y wefan a'r podlediad yn parhau i gael eu rhoi ar waith nes diwedd y flwyddyn ariannol.

Er bod y ffocws wedi canolbwyntio ar wneud y defnydd mwyaf o’r cymorth y gellir ei roi i'r gymuned gofalwyr ifanc, un o'r pryderon oedd yr ansicrwydd mawr ynghylch cyllid ar ôl 31 Mawrth. Byddai hyn yn golygu na fyddai'r rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles yn gallu parhau y flwyddyn nesaf.

O ran y ddarpariaeth, byddai'r tri llinyn o gyllid CGI yn dod i ben ac er bod y rhanbarth wedi canolbwyntio ar ddyrannu cyllid drwy'r gaeaf, ni chafwyd unrhyw gyfathrebu ffurfiol ynghylch y cyllid amgen a fyddai ar gael y flwyddyn nesaf. Byddai hyn yn golygu bod tri allan o'r pedwar aelod o staff "mewn perygl".

Aeth ymlaen i ddweud fodd bynnag y byddai llinyn arall o gyllid ar gael drwy'r Gronfa Buddsoddi Rhanbarthol (CBRh) newydd a fyddai'n cymryd lle'r cyllid CGI, ond roedd yn dal i aros am fanylion pellach. Byddai rhan o'r cyllid hwn yn cefnogi'r Fforwm Gofalwyr Ifanc, felly gallai gael effaith enfawr ar y gwaith a wneir gyda'r Strategaeth Gofalwyr Ifanc. Cynhaliwyd tri chyfarfod gyda'r Fforwm Gofalwyr Ifanc a gobeithiwyd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei orffen ym mis Mawrth, gyda'r nod o rannu eu barn gyda'r rheolwyr strategol allweddol a'r Pwyllgor Datblygu Polisi Pobl. Fodd bynnag, pwysleisiodd y gallai'r llinell amser gael ei heffeithio o ganlyniad i'r materion ariannol a amlinellwyd.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau amrywiol, ac atebodd y swyddogion yn briodol iddynt.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad.

## 43 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cynllun gwaith, yn amodol ar y diwygiad(au) calynol:

23 Chwefror 2022

Ychwanegu
- Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc - Diweddariad Llafar.

23 Mawrth 2022

Ychwanegu
- Y Diweddaraf am y Rhaglenni Cyflogadwyedd a'r
- Diweddaraf am y Strategaeth Gofalwyr Ifanc

Daeth y cyfarfod I ben am 4.49 pm

**Cadeirydd**